



# Mesur Addysg (Cymru) 2009

2009 mccc 5

Nodiadau Esboniadol

# Education (Wales) Measure 2009

2009 nawm 5

Explanatory Notes

£5.50

## **MESUR ADDYSG (CYMRU) 2009**

---

### **NODIADAU ESBONIADOL**

#### **CYFLWYNIAD**

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Mesur Addysg (Cymru) 2009 a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 3 Tachwedd 2009 ac a gymeradwywyd gan Ei Mawrhydi yn Ei Chyngor ar 9 Rhagfyr 2009. Fe'u paratowyd gan Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dylai'r Nodiadau Esboniadol gael eu darllen ar y cyd â'r Mesur ond nid ydynt yn rhan ohono. Nid ydynt, ac ni fwriedir iddynt fod, yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Mesur. Os yw'n ymddangos, felly, nad oes angen rhoi esboniad neu wneud sylw ar adran neu ran o adran yna ni roddir esboniad ac ni wneir sylw arni.
2. Mae'r Mesur yn rhoi i blant a phobl ifanc yr hawl i wneud apêl i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ("y Tribiwnlys") mewn cysylltiad ag anghenion addysgol arbennig ac yn rhoi iddynt hawl i wneud hawliad i'r Tribiwnlys mewn cysylltiad â gwahaniaethu ar sail anabled mewn ysgolion.
3. Mae'r Mesur yn gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth gyfredol sy'n ymwneud â'r cwricwlwm ysgol. Newidiadau ydynt sy'n deillio o roi ar waith gyfnod sylfaen (plant 3 i 7 oed) Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru. Caiff cyfnod allweddol 1 ei ddileu o Gwricwlwm Cenedlaethol Cymru ac ailenwir "foundation stage" yn "foundation phase".
4. Mae'r Mesur hefyd yn gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i hawl disgyblion o dan y cwricwlwm lleol (y grŵp oedran 16-18).

#### **SYLWEBAETH AR ADRANNAU**

##### **Rhan 1 – Apelau a Hawliadau Addysg gan Blant**

##### **Apelau anghenion addysgol arbennig**

##### **Mae adrannau 1- 8 yn mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf Addysg 1996**

##### **Adran 1 – Hawl plentyn i apelio i'r Tribiwnlys mewn cysylltiad ag anghenion addysgol arbennig (mewnosod adran 332ZA newydd yn Neddf Addysg 1996)**

5. Mae is-adran (1) o'r adran 332ZA newydd yn pennu seiliau presennol apêl y caiff rhiant i blentyn a chanddo AAA ei gwneud i'r Tribiwnlys.
6. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff plentyn apelio i'r Tribiwnlys mewn perthynas â seiliau presennol apêl y caiff rhiant y plentyn ei gwneud.

# **EDUCATION (WALES) MEASURE 2009**

---

## **EXPLANATORY NOTES**

### **INTRODUCTION**

1. These Explanatory Notes are for the Education (Wales) Measure 2009 which was passed by the National Assembly for Wales on 3 November 2009 and approved by Her Majesty in Council on 9 December 2009. They have been prepared by the Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills of the Welsh Assembly Government to assist the reader. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Measure but are not part of it. They are not, and are not meant to be, a comprehensive description of the Measure. So where a section or part of a section does not seem to require any explanation or comment, none is given.
2. The Measure gives children and young people the right to make an appeal in respect of special educational needs to the Special Educational Needs Tribunal for Wales (“the Tribunal”) and gives them a right to make a claim in respect of disability discrimination in schools to the Tribunal.
3. The Measure makes changes to current legislation relating to the school curriculum which flow from the implementation of the foundation phase (3 to 7 year-olds) of the National Curriculum for Wales. The first key stage is removed from the National Curriculum for Wales and the “foundation stage” is re-named the “foundation phase”.
4. The Measure also makes changes to legislation relating to students’ local curriculum entitlement (16-18 age group).

### **COMMENTARY ON SECTIONS**

#### **Part 1 – Education Appeals and Claims by Children**

##### **Special educational needs appeals**

##### **Sections 1- 8 insert new provisions into the Education Act 1996**

##### **Section 1 – Right of a child to appeal to the Tribunal in respect of special educational needs (inserting a new section 332ZA into the Education Act 1996)**

5. Subsection (1) of the new section 332ZA specifies existing grounds on which a parent of a child with SEN may appeal to the Tribunal.
6. Subsection (2) provides that a child may appeal to the Tribunal in relation to the existing grounds on which the child’s parent may appeal.

7. Mae is-adran (3) yn caniatáu i riant a phlentyn apelio ar yr un pryd p'un ai ar yr un seiliau ai ar seiliau gwahanol.
8. Mae is-adran (4) yn darparu bod arfer hawliau a roddir o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaethau a wnaed gan reoliadau o dan adrannau 332ZC a 336(1) o Ddeddf Addysg 1996.

**Adran 2 – Hysbysu plentyn a chyflwyno dogfennau iddo  
(mewn osod adran 332ZB newydd yn Neddf Addysg 1996)**

9. Mae is-adran (1) o'r adran 332ZB newydd yn pennu amryw amgylchiadau pan fo'n rhaid i Awdurdod Addysg Lleol hysbysu rhiant plentyn, neu gyflwyno dogfen i riant plentyn.
10. Mae is-adran (2) yn rhoi dyletswydd ar Awdurdod Addysg Lleol i hysbysu'r plentyn yn ogystal â'r rhiant, neu i gyflwyno dogfen i'r plentyn yn ogystal ag i'r rhiant.
11. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol y bydd unrhyw ddarpariaeth sy'n gymwys i hysbysiadau a roddir, neu ddogfennau a gyflwynir, i riant yr un mor gymwys i hysbysiadau a roddir, neu ddogfennau a gyflwynir, i blentyn.

**Adran 3 – Cyfeillion achos  
(mewn osod adran 332ZC newydd yn Neddf Addysg 1996)**

12. Mae is-adran (1) o'r adran 332ZC newydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau syn darparu i blentyn gael person (a elwir "cyfaill achos") i wneud cynrychioliadau ar ran y plentyn er mwyn osgoi neu ddatrys anghydfodau rhwng y plentyn a'r Awdurdod Addysg Lleol neu er mwyn arfer, ar ran y plentyn, hawl plentyn i apelio.
13. Mae is-adran (2) yn pennu dyletswyddau'r cyfaill achos pan fydd yn gwneud cynrychioliadau neu apel ar ran plentyn.
14. Mae is-adran (3) yn darparu y caiff rheoliadau, a wneir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon, (ymhlith pethau eraill) roi swyddogaethau i'r Tribiwnlys a gosod gweithdrefnau mewn perthynas â chyfeillion achos. Caiff rheoliadau hefyd wneud darpariaeth ynghylch penodi neu ddiswyddo cyfaill achos, pennu amgylchiadau pan gaiff person neu pan na chaiff person weithredu fel cyfaill achos, pennu amgylchiadau pan fo'n rhaid i blentyn gael cyfaill achos, a phennu gofynion mewn cysylltiad ag ymddygiad cyfaill achos.

**Adran 4 – Cyngor a gwybodaeth  
(diwygio adran 332A a mewnosod adran 332AA newydd yn Neddf Addysg 1996)**

15. Diwygir adran 332A o Ddeddf Addysg 1996 fel ei bod yn gymwys i Loegr yn unig.
16. Mewn osodir adran 332AA newydd yn Neddf Addysg 1996.

*These notes refer to the Education (Wales) Measure 2009 (nawm 5)  
which received approval by Her Majesty in Council on 9 December 2009*

7. Subsection (3) permits a parent and child to appeal at the same time whether on the same or on different grounds.
8. Subsection (4) provides that the exercise of rights granted under this section is subject to any provisions made by regulations under sections 332ZC and 336(1) of the Education Act 1996.

**Section 2 – Notice and service of documents on a child  
(inserting a new section 332ZB into the Education Act 1996)**

9. Subsection (1) of the new section 332ZB specifies various circumstances when a Local Education Authority must give notice to, or serve a document on, a parent of a child.
10. Subsection (2) places a duty on a Local Education Authority to give notice to, or serve a document on, the child as well as the parent.
11. Subsection (3) requires that any provision which applies to notices given to or documents served on a parent will apply equally to notices or documents served on a child.

**Section 3 – Case Friends  
(inserting a new section 332ZC into the Education Act 1996)**

12. Subsection (1) of the new section 332ZC allows regulations to be made by the Welsh Ministers that provide for a child to have a person (known as a “case friend”) to make representations on behalf of the child to avoid or resolve disputes with the Local Education Authority, or to exercise a child’s right of appeal on behalf of the child.
13. Subsection (2) sets out the duties of a case friend when making representations or making an appeal on behalf of a child.
14. Subsection (3) provides that regulations made by the Welsh Ministers under this section may (among other things) confer functions on the Tribunal and set up procedures in relation to case friends. Regulations may also make provision about the appointment or removal of a case friend, specify circumstances in which a person may or may not act as a case friend, specify circumstances in which a child must have a case friend, and specify requirements in respect of a case friend’s conduct.

**Section 4 - Advice and information  
(amending section 332A and inserting a new section 332AA into the Education Act 1996)**

15. Section 332A of the Education Act 1996 is amended so that it applies to England only.
16. A new section 332AA is inserted into the Education Act 1996.

17. Mae is-adran (1) o'r adran newydd yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru i drefnu bod cyngor priodol a gwybodaeth briodol ynghylch materion sy'n ymwneud ag AAA'r plentyn yn cael eu darparu ar gyfer unrhyw blentyn yn eu hardal a chanddo AAA, ac unrhyw riant neu gyfaill achos i blentyn o'r fath.
18. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru pan fydd yr Awdurdodau'n gwneud trefniadau i ddarparu cyngor a gwybodaeth i blant, i'w rhieni neu i'w cyfeillion achos.
19. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol gydymffurfio ag unrhyw reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru ac sy'n ymwneud â threfniadau rhoi cyngor a gwybodaeth.
20. Mae is-adran (4) yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol i sicrhau bod plant, rhieni, penaethiaid ysgolion a pherchenogion ysgolion yn eu hardal, a phersonau eraill o'r fath y mae'r Awdurdodau o'r farn eu bod yn briodol, yn ymwybodol bod gwasanaethau cyngor a gwybodaeth ar gael.

#### **Adran 5 – Datrys anghydfodau**

##### **(diwygio adran 332B a mewnosod adran 332BA newydd yn Neddf Addysg 1996)**

21. Diwygir adran 332B o Ddeddf Addysg 1996 fel ei bod yn gymwys i Loegr yn unig.
22. Mewnosodir adran 332BA newydd yn Neddf Addysg 1996.
23. Mae is-adran (1) o'r adran newydd yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru i wneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau datrys anghydfodau sy'n wasanaethau annibynnol er mwyn osgoi neu ddatrys anghytundebau rhwng yr Awdurdod Addysg Lleol a phlentyn a'r Awdurdod Addysg Lleol a riant i blentyn.
24. Mae is-adran (2) yn gorfodi Awdurdodau Addysg Lleol i wneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau datrys anghydfodau sy'n wasanaethau annibynnol gyda'r bwriad o osgoi neu ddatrys anghydfodau rhwng plentyn a pherchennog ysgol a riant a pherchennog ysgol.
25. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol wneud trefniadau sy'n darparu ar gyfer penodi person annibynnol i helpu i osgoi neu ddatrys anghydfodau.
26. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru pan fydd yr Awdurdodau'n gwneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau datrys anghydfodau.
27. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth a wnaed mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru sy'n ymwneud â gwasanaethau datrys anghydfodau.

*These notes refer to the Education (Wales) Measure 2009 (nawm 5)  
which received approval by Her Majesty in Council on 9 December 2009*

17. Subsection (1) of the new section places a duty on Local Education Authorities in Wales to arrange for any child in their area with SEN, and any parent or case friend of such child, to be provided with appropriate advice and information about matters relating to the child's SEN.
18. Subsection (2) requires Local Education Authorities to have regard to any guidance given by the Welsh Ministers when making arrangements to provide advice and information to children, their parents or case friends.
19. Subsection (3) requires Local Education Authorities to comply with any regulations made by the Welsh Ministers that relate to advice and information arrangements.
20. Subsection (4) places a duty on Local Education Authorities to make children, parents, head teachers and proprietors of schools in their area, and such other persons as they consider appropriate, aware that advice and information services are available.

**Section 5 - Resolution of disputes  
(amending section 332B and inserting a new section 332BA into the Education Act 1996)**

21. Section 332B of the Education Act 1996 is amended so that it applies to England only.
22. A new section 332BA is inserted into the Education Act 1996.
23. Subsection (1) of the new section places a duty on Local Education Authorities in Wales to make arrangements to provide independent dispute resolution services to avoid or resolve disagreements between the Local Education Authority and a child and the Local Education Authority and a parent of a child.
24. Subsection (2) obliges Local Education Authorities to make arrangements to provide independent dispute resolution services with a view to avoiding or resolving disputes between a child and the proprietor of a school and a parent and the proprietor of a school.
25. Subsection (3) requires Local Education Authorities to make arrangements that provide for the appointment of an independent person to help avoid or resolve disputes.
26. Subsection (4) requires Local Education Authorities to have regard to any guidance given by the Welsh Ministers when making arrangements to provide dispute resolution services.
27. Subsection (5) requires Local Education Authorities to comply with any provision made in regulations by the Welsh Ministers that relate to dispute resolution services.
28. Subsection (6) places a duty on Local Education Authorities to make children, parents, head teachers and proprietors of schools in their area, and such other persons as they consider appropriate, aware that dispute resolution services are available.

28. Mae isadran (6) yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol i sicrhau bod plant, rhieni, penaethiaid ysgolion a pherchenogion ysgolion yn eu hardal, a phersonau eraill o'r fath y mae'r Awdurdodau o'r farn eu bod yn briodol, yn ymwybodol bod gwasanaethau datrys anghydfodau ar gael.
29. Mae is-adran (7) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol hysbysu plant, rhieni a chyfeillion achos ar gyfer plant yn eu hardal na fydd cymryd rhan mewn trefniadau datrys anghydfodau yn effeithio ar hawl rhiant neu blentyn i apelio i'r Tribiwnlys.

**Adran 6 – Gwasanaethau eirioli annibynnol  
(mewn osod adran 332BB newydd yn Neddf Addysg 1996)**

30. Mae is-adran (1) o adran 332BB newydd yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru i drefnu bod gwasanaeth eirioli annibynnol ar gael yn eu hardal, a bod plentyn neu gyfaill achos ar gyfer plentyn yn cael ei gyfeirio at y gwasanaeth pe byddai'n gofyn am hynny.
31. Mae is-adran (2) yn diffinio "independent advocacy services" (gwasanaethau eirioli annibynnol) yn wasanaethau a fwriedir ar gyfer darparu cyngor a chymorth i blentyn sy'n ystyried p'un ai i apelio i'r Tribiwnlys ai peidio, sydd wedi gwneud neu sy'n bwriadu gwneud apêl, neu sy'n cymryd rhan neu'n bwriadu cymryd rhan mewn trefniadau datrys anghydfodau.
32. Mae isadran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol, pan fyddant yn gwneud trefniadau gwasanaethau eirioli, roi sylw i'r egwyddor bod yn rhaid i'r gwasanaeth eirioli fod yn annibynnol ar unrhyw berson sy'n destun apêl neu y mae a wnelo ag ymchwilio i'r apêl neu ddyfarnu ar yr apêl.
33. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol gydymffurfio ag unrhyw reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru ac sy'n ymwneud â threfniadau gwasanaethau eirioli.
34. Mae isadran (5) yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol i sicrhau bod plant, rhieni, penaethiaid ysgolion a pherchenogion ysgolion yn eu hardal, a phersonau eraill o'r fath y mae'r Awdurdodau o'r farn eu bod yn briodol, yn ymwybodol bod gwasanaethau eirioli annibynnol ar gael.
35. Mae is-adran (6) yn caniatáu i Awdurdod Addysg Lleol wneud trefniadau sy'n darparu ar gyfer talu person, neu mewn perthynas â pherson, sy'n darparu gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer plentyn neu gyfaill achos.
36. Mae is-adran (7) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru pan fydd yr Awdurdodau'n gwneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer plant neu gyfeillion achos.



*These notes refer to the Education (Wales) Measure 2009 (nawm 5)  
which received approval by Her Majesty in Council on 9 December 2009*

29. Subsection (7) requires Local Education Authorities to notify children, parents and case friends for children in their area that participation in dispute resolution arrangements will not affect a parent or a child's entitlement to appeal to the Tribunal.

**Section 6 - Independent advocacy services  
(inserting a new section 332BB into the Education Act 1996)**

30. Subsection (1) of the new section 332BB places a duty on Local Education Authorities in Wales to arrange for an independent advocacy service to be available in their area, and for a child or a case friend for a child to be referred to the service should they request it.
31. Subsection (2) defines "independent advocacy services" as services intended to provide advice and assistance to a child who is considering whether to appeal to the Tribunal, who has made or intends to make an appeal, or who is taking part in or intending to take part in dispute resolution arrangements.
32. Subsection (3) requires Local Education Authorities when making advocacy services arrangements, to have regard to the principle that the advocacy service must be independent of any person who is the subject of an appeal or involved in investigating or adjudicating on the appeal.
33. Subsection (4) requires Local Education Authorities to comply with any regulations made by the Welsh Ministers that relate to advocacy services arrangements.
34. Subsection (5) places a duty on Local Education Authorities to make children, parents, head teachers and proprietors of schools in their area, and such other persons as they consider appropriate, aware that independent advocacy services are available.
35. Subsection (6) allows a Local Education Authority to make arrangements that provide for payment to be made to, or in relation to, a person who provides independent advocacy services to a child or case friend.
36. Subsection (7) requires Local Education Authorities to have regard to any guidance given by the Welsh Ministers when making arrangements to provide independent advocacy services to children or case friends.

**Section 7 - Tribunal procedure**

37. This section amends section 336 of the Education Act 1996 which gives the Welsh Ministers the power to make regulations about Tribunal proceedings.
38. Subsection (3) adds additional paragraphs to section 336(2) to enable the Welsh Ministers to postpone proceedings in certain circumstances and to add or substitute parties in appeal proceedings.

## **Adran 7 – Gweithdrefn y Tribiwnlys**

37. Mae'r adran hon yn diwygio adran 336 o Ddeddf Addysg 1996 sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch achosion yn y Tribiwnlys.
38. Mae is-adran (3) yn ychwanegu paragraffau ychwanegol at adran 336(2) i alluogi Gweinidogion Cymru i ohirio achosion o dan amgylchiadau penodol ac i ychwanegu at bartïon i achosion apêl, neu roi partïon yn lle partïon i achosion apêl.

## **Adran 8 –Gweithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau (diwygio adran 569 o Ddeddf Addysg 1996 a mewnosod adran 569(2A) a (2B) newydd yn y Ddeddf honno)**

39. Mae'r adran hon yn diwygio adran 569 o Ddeddf Addysg 1996 sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â rheoliadau.
40. Mae is-adran (2) yn diwygio adran 569(1) o Ddeddf Addysg 1996 i bennu bod yn rhaid arfer drwy offeryn statudol unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau.
41. Mae is-adran (4) yn mewnosod isadrannau (2A) a (2B) newydd. Mae isadran (2A) yn rhagnodi y bydd rheoliadau a wneir o dan adrannau 332ZC, 332AA, 332BA, 332BB a 336 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol. Mae is-adran (2B) yn fynegbost i effaith paragraffau 33 i 35 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Paragraffau yw'r rhain sy'n ymdrin â gweithdrefnau'r Cynulliad sy'n gymwys i is-ddeddfwriaeth a wneir o dan bwerau sydd yn Neddf Addysg 1996 ac mewn Deddfau eraill ac a drosglwyddwyd i Weinidogion Cymru gan Ddeddf 2006.

## **Hawliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd**

### **Mae adrannau 9-16 yn mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995**

## **Adran 9 – Hawl plentyn i wneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd (mewnosod adran 28IA newydd yn Neddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 – Awdurdodaeth a Phwerau'r Tribiwnlys)**

42. Mae adran 281A newydd yn rhoi i blant anabl yr hawl i wneud hawliad eu hunain i'r Tribiwnlys, ac yn caniatáu i'r Tribiwnlys ystyried hawliad a wnaed gan blentyn a dyfarnu arno.
43. Mae is-adran (1) o'r adran newydd yn pennu ar ba seiliau y caiff plentyn anabl wneud hawliad i'r Tribiwnlys.
44. Mae is-adran (2) yn darparu nad yw hawl y plentyn i wneud hawliad yn ymestyn i hawliad yn erbyn ysgol a gynhelir gan yr Awdurdod Addysg Lleol, sef hawliad sy'n ymwneud â phenderfyniadau derbyn i'r ysgol neu wahardd yn barhaol o'r ysgol.

**Section 8 - Procedure for making regulations  
(amending section 569 of the Education Act 1996 and inserting a new section 569(2A)  
and (2B) into that Act)**

39. This section amends section 569 of the Education Act 1996 which makes provision in relation to regulations.
40. Subsection (2) amends section 569(1) of the Education Act 1996 to specify that any power of the Welsh Ministers to make regulations must be exercised by statutory instrument.
41. Subsection (4) inserts new subsections (2A) and (2B). Subsection (2A) prescribes that regulations made under sections 332ZC, 332AA, 332BA, 332BB and 336 will be subject to the negative resolution procedure. Subsection (2B) is a signpost to the effect of paragraphs 33 to 35 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, which deal with the Assembly procedures that apply to subordinate legislation made under powers in the Education Act 1996 and other Acts that were transferred to the Welsh Ministers by the 2006 Act.

**Disability Discrimination Claims**

**Sections 9 - 16 insert new provisions into the Disability Discrimination Act 1995**

**Section 9 - Right of a child to make a disability discrimination claim  
(inserting a new section 28IA into the Disability Discrimination Act 1995 – Jurisdiction  
and Powers of the Tribunal)**

42. The new section 28IA gives disabled children the right to make a claim to the Tribunal themselves, and allows the Tribunal to consider and adjudicate on a claim made by a child.
43. Subsection (1) of the new section specifies the grounds on which a disabled child may make a claim to the Tribunal.
44. Subsection (2) provides that the child's right to make a claim does not extend to a claim that relates to admission or permanent exclusion decisions against a school maintained by the Local Education Authority.
45. Subsection (3) permits a child to make a claim at the same time as the child's parent whether on the same or on different grounds.
46. Subsection (4) allows the Tribunal to make an order in relation to a claim made by a child.
47. Subsection (5) allows the Tribunal to make an order to prevent or alleviate discrimination, but this does not include a power for the Tribunal to order payment by way of compensation.

45. Mae is-adran (3) yn caniatáu i blentyn wneud hawliad ar yr un pryd â rhiant y plentyn p'un ai ar yr un seiliau ai ar seiliau gwahanol.
46. Mae is-adran (4) yn caniatáu i'r Tribiwnlys wneud gorchymyn mewn perthynas â hawliad a wnaed gan blentyn.
47. Mae is-adran (5) yn caniatáu i'r Tribiwnlys wneud gorchymyn i rwystro gwahaniaethu neu liniaru ei effeithiau, ond nid yw hyn yn cynnwys pŵer i'r Tribiwnlys orchymyn taliad ar ffurf iawndal.
48. Mae is-adran (6) yn darparu bod arfer hawliau a roddir o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaethau a wnaed gan reoliadau o dan adrannau 28IB a 28J o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.

### **Adran 10 – Cyfeillion achos**

#### **(mewn nod adran 28IB newydd yn Neddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995)**

49. Mae is-adran (1) o adran 281B newydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n yn darparu i blentyn anabl gael person i wneud cynrychioliadau ar ran y plentyn er mwyn osgoi neu ddatrys anghydfodau rhwng y plentyn a'r corff sy'n gyfrifol am ysgol, neu er mwyn arfer hawl y plentyn i wneud hawliad i'r Tribiwnlys.
50. Mae is-adran (2) yn pennu bod person sy'n gwneud cynrychioliadau neu'n gwneud hawliad ar ran plentyn i'w alw'n "gyfaill achos".
51. Mae is-adran (3) yn nodi'r meini prawf y mae'n rhaid i gyfaill achos eu bodloni pan fydd yn gwneud cynrychioliadau neu'n gwneud hawliad ar ran plentyn.
52. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan yr aran hon roi swyddogaethau i'r Tribiwnlys a gosod gweithdrefnau mewn perthynas â chyfeillion achos. Caiff rheoliadau hefyd wneud darpariaeth ynghylch penodi neu ddiswyddo cyfaill achos, pennu amgylchiadau pan gaiff person neu na chaiff person weithredu fel cyfaill achos, pennu amgylchiadau pan fo'n rhaid i blentyn gael cyfaill achos, a phennu gofynion mewn cysylltiad ag ymddygiad cyfaill achos.
53. Mae is-adran (5) yn diffinio "disabled child" (plentyn anabl) at ddibenion y darpariaethau newydd yn y Mesur hwn.

### **Adran 11 – Cyngor a gwybodaeth**

#### **(mewn nod adran 281C newydd – Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995)**

54. Mae is-adran (1) o adran 281C newydd yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru i drefnu bod cyngor a gwybodaeth ar faterion sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion yn cael ei roi i unrhyw blentyn anabl yn eu hardal ac i unrhyw gyfaill achos ar gyfer plentyn o'r fath.

*These notes refer to the Education (Wales) Measure 2009 (nawm 5)  
which received approval by Her Majesty in Council on 9 December 2009*

48. Subsection (6) provides that the exercise of rights granted under this section is subject to any provisions made by regulations under sections 28IB and 28J of the Disability Discrimination Act 1995.

#### **Section 10 – Case friends**

##### **(inserting a new section 28IB into the Disability Discrimination Act 1995)**

49. Subsection (1) of the new section 28IB allows regulations to be made by the Welsh Ministers that provide for a disabled child to have a person to make representations on behalf of the child to avoid or resolve disputes with the body responsible for a school, or to exercise the child's right to make a claim to the Tribunal.
50. Subsection (2) specifies that a person who makes representations or makes a claim on behalf of a child is to be known as a "case friend"
51. Subsection (3) sets out the criteria that a case friend must satisfy when making representations or making a claim on behalf of a child.
52. Subsection (4) provides that regulations made by the Welsh Ministers under this section may confer functions on the Tribunal and set up procedures in relation to case friends. Regulations may also make provision about the appointment or removal of a case friend, specify the circumstances in which a person may or may not act as a case friend, specify circumstances in which a child must have a case friend, and specify requirements in respect of a case friend's conduct.
53. Subsection (5) defines a "disabled child" for the purposes of the new provisions in this Measure

#### **Section 11 - Advice and information**

##### **(inserting a new section 28IC – Disability Discrimination Act 1995)**

54. Subsection (1) of the new section 28IC places a duty on Local Education Authorities in Wales to arrange for any disabled child in their area and for any case friend for such child, to be given advice and information on matters relating to disability discrimination in schools.
55. Subsection (2) requires Local Education Authorities to have regard to any guidance given by the Welsh Ministers when making arrangements to provide advice and information to disabled children (or case friends).
56. Subsection (3) requires Local Education Authorities to comply with any provision made in regulations by the Welsh Ministers that relate to advice and information arrangements.
57. Subsection (4) places a duty on Local Education Authorities to make disabled children, parents of disabled children, head teachers and proprietors of schools in their area and such other persons as they consider appropriate, aware that advice and information services are available.

55. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru pan fydd yr Awdurdodau'n gwneud trefniadau i ddarparu cyngor a gwybodaeth i blant anabl (neu gyfeillion achos).
56. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth a wnaed mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru sy'n ymwneud â threfniadau rhoi cyngor a gwybodaeth.
57. Mae is-adran (4) yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol i sicrhau bod plant anabl, rhieni plant anabl, penaethiaid ysgolion a pherchenogion ysgolion yn eu hardal, a phersonau eraill o'r fath y mae'r Awdurdodau o'r farn eu bod yn briodol, yn ymwybodol bod gwasanaethau cyngor a gwybodaeth ar gael.

**Adran 12 – Datrys anghydfodau  
(mewn osod adran 28ID newydd – Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995)**

58. Mae is-adran (1) o adran 28ID newydd yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru i wneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau datrys anghydfodau er mwyn osgoi neu ddatrys anghytundebau rhwng plentyn anabl a'r corff sy'n gyfrifol am ysgol.
59. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol wneud trefniadau sy'n darparu ar gyfer penodi person annibynnol i helpu i osgoi neu ddatrys anghydfodau.
60. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru pan fydd yr Awdurdodau'n gwneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau datrys anghydfodau.
61. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth a wnaed gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau sy'n ymwneud â gwasanaethau datrys anghydfodau.
